# YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO

## DYDD GWENER, 14 GORFFENNAF 2023

**PRESENNOL:** Cynghorydd C.A. Davies (Aelod Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
C. Owen, Swyddog Biwro
A. Rees, Swyddog Biwro
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.10 yb**

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 14 MAWRTH 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2023, gan ei fod yn gywir.**

### 3. GRANT CYMORTH RHANDIROEDD LLYWODRAETH CYMRU

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cyflwyno cynllun gwaith i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2023 a oedd yn rhoi manylion deg cais am gyllid o dan ei Chronfa Cymorth Rhandiroedd 2023/24 a chytuno hefyd i Dîm Biwro yr Awdurdod ymgymryd â'r rôl weinyddol yn unol â Thelerau ac Amodau'r grantiau.

Nododd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael swm dangosol o £34,308 gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Rhandiroedd er mwyn cynyddu argaeledd lleiniau rhandiroedd o ansawdd da ledled Sir Gaerfyrddin am flwyddyn ariannol 23/24. Roedd swm dangosol o £34,308 hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgarwch yn 2024-25, ar yr amod bod Cynllun Gwaith arall wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodwyd hefyd bod y 10 cais y manylwyd arnynt yn yr adroddiad wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru wedi hynny.

Byddai'r gronfa, sydd i'w gweinyddu gan Dîm Biwro yr Awdurdod, yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i helpu i hybu gallu'r sefydliadau a nodir yn yr adroddiad ac yn cynnwys:-

- Creu lleiniau newydd
- Defnyddio lleiniau diffaith unwaith eto

- Gwella hygyrchedd
- Gwella gwasanaethau safleoedd
- Gwella diogelwch safleoedd
- Gwella'r ffordd mae safleoedd yn cael eu rheoli
- Cynyddu ailgylchu / adnewyddu
- Cynyddu bioamrywiaeth / pryfed peillio

**PENDERFYNWYD**

**3.1 Rhoi cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Chronfa Cymorth Rhandiroedd 2023/24.**

**3.2 Bod Tîm Biwro yr Awdurdod yn ymgymryd â'r rôl weinyddol yn unol â Thelerau ac Amodau'r grantiau**

_________________________ ___________________

**AELOD CABINET** **DYDDIAD**